# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb ar ôl Ysgol Mynydd Bychan Playworks**

**Ysgol Mynydd Bychan**
**Heol Seland Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 3BR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Playworks Ysgol Mynydd Bychan wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal ar ôl ysgol i hyd at 56 o blant rhwng tair ac 11 mlwydd oed. Cynigir y gwasanaeth i blant sy'n mynd i Ysgol Mynydd bychan, sydd wedi'i lleoli yn ardal Y Maendy yng Nghaerdydd. Mae'r clwb yn rhannu adnoddau â'r ysgol am ran o'r wythnos, am fod nifer o'r plant yn mynd i weithgareddau ar ôl ysgol wedi'u lleoli yn neuadd yr ysgol. Gofal Plant Playworks yw darparwr y gwasanaeth a Sarah Gardner a Katherine Watkins yw'r unigolion cyfrifol sydd â chyfrifoldeb cyffredniol dros y gwasanaeth. Mae person â chyfrifoldeb yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yw hwn yn bennaf, gyda rhai aelodau o'r staff yn defnyddio'r Saesneg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r gwasanaeth yn darparu cyfleoedd da i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau dysgu diddorol. maent yn derbyn gofal gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac yn llawn cymhelliant i hyrwyddo cyfeillgarwch a chydberthnasau cadarnhaol o fewn y grŵp. Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cymarebau staff yn bodloni neu'n rhagori disgwyliad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gefnogi'n rheolaidd gan dîm datblygu Playworks a chaiff prosesau rheoli eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd. Mae gan yr amgylchedd adnoddau da iawn ac yn darparu cyfleusterau da i'r plant, a hynny dan do ac yn yr awyr agored.

**2. Gwelliannau**

- Mae cornel dawel wedi'i chreu i'r plant gael ei defnyddio;
- mae'r holl adnoddau digidol yn briodol ar gyfer oedran y plant;
- mae digon o ystafelloedd ar gael i'r plant eu defnyddio, ac
- mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu defnydd y cyfleusterau yn gywir.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â chryfhau rhai gweithdrefnau gofal a chofnodi gweithdrefnau'n ysgrifenedig. Caiff y rhain eu trafod yn yr adroddiad a cheir crynodeb ohonynt ar y diwedd.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gwasanaeth o ansawdd da sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd diddorol ac ysgogol ar ôl ysgol. Maent yn fodlon eu byd ac yn dangos boddhad amlwg ynglŷn â sut maent yn treulio eu hamser yn y clwb. Gallant feithrin cydberthnasau cadarnhaol a chynnes o fewn y grŵp, ac maent yn teimlo eu bod yn cael croeso. Mae'r plant yn cael gofal cyson a chefnogol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut maent yn treulio eu hamser yn y clwb. Maent yn symud yn ddirwystr rhwng y gweithgareddau ac yn gofyn am adnoddau yn ôl yr angen. Mae mynediad agored i'r ardaloedd awyr agored ac mae'r plant yn rhydd i fynd yno, ac mae'n amlwg bod nifer o'r plant hŷn yn eu mwynhau a'u gwerthfawrogi. Ceir blwch awgrymiadau i'r plant ei ddefnyddio i leisio eu barn ac i wneud ceisiadau am weithgareddau amgen. Gwnaeth y plant gais am rai dyfeisiau electronig a phrynwyd dau gyfrifiadur llechen o ganlyniad i hynny. Gan amlaf, mae'r plant yn eistedd gyda'r staff ac yn cyfleu eu syniadau a'u dewisiadau yn anffurfiol. Dywedodd y staff wrthym fod pwyllgor plant mwy ffurfiol wedi'i gynllunio ac mae trafodaethau gyda'r plant yn mynd rhagddynt i benderfynu ar strwythur y cyfarfodydd.

Mae'r plant yn mynegi eu dymuniadau yn rhydd ac yn hyderus.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gyfforddus, wedi setlo ac wedi ymlacio yn y gwasanaeth. Mae cydberthnasau rhwng y plant a'r staff yn gyson ac yn seiliedig ar ymddiried. Mae'r rhan fwyaf o'r staff hefyd wedi eu cyflogi yn yr ysgol ac yn adnabod y plant yn dda. Mae'n amlwg bod cydberthynas agos rhwng y plant a'u gofalwyr. Mae'r plant yn meithrin cydberthynas dda gyda'r plant eraill nad ydynt yn eu dosbarth yn yr ysgol bob amser. Gwelsom y plant hŷn yn dal dwylo â'r plant iau, yn eu harwain a'u helpu i estyn eu bwyd yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymdeithasu gyda'u ffrindiau y tu allan i gyfyngiadau amser ysgol, mewn amgylchedd hamdden.

Caiff llesiant emosiynol y plant ei gyfoethogi drwy'r gydberthynas gadarnhaol â'r staff a'u cyfoedion yn y clwb.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae plant o fewn grŵp oedran eang yn defnyddio'r gwasanaeth ac yn rhyngweithio'n briodol. Mae'n amlwg bod cyfeillgarwch cefnogol rhwng y plant ac maent yn ymdrechu i beidio â diystyru eraill wrth chwarae gemau. Yn bennaf, mae'r plant yn cydweithio'n dda, yn rhannu ac yn cymryd eu tro yn ôl yr angen. Roeddent yn aros eu tro yn

amyneddgar mewn rhes i ddewis eu bwyd amser byrbryd ac yn rhannu pensiliau lliwio ac adnoddau. Mae'r plant yn ymddwyn mewn modd sy'n ystyriol o deimladau pobl eraill a gwelsom fod y plant a'r staff yn parchu ei gilydd. Roedd y plant yn talu sylw i geisiadau'r staff i ymdawelu ac i olchi dwylo, ac yn amlwg roedd hyn yn rhan o drefn sefydledig a oedd yn darparu fframwaith ar eu cyfer.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol yn ystod eu hamser yn y clwb ac mae hyn yn cyfoethogi eu hunan-barch.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn dangos ymdeimlad o foddhad gyda'r gweithgareddau a'r profiadau sydd ar gael iddynt. Gall y plant ddewis o blith gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio a'u paratoi gan y staff, neu benderfynu cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd ar gael i bawb yn ystod pob sesiwn. Mae'r rhain yn cynnwys gemau bwrdd, garddio a chanu ac actio. Ar ail ddiwrnod yr arolygiad, oedd llawer o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd addurno bisgedi. Roedd eraill yn awyddus i dynnu lluniau a gwneud gwaith crefft yn ofalus, gan ddweud wrthym eu bod yn bwriadu eu rhoi i'w rhieni. Hefyd, gwnaethant fwynhau gweithgareddau lliwio a chrefft â thema'r hydref, ac roeddent yn edrych ymlaen at y parti Calan Gaeaf a drefnwyd. Cafodd y plant adborth cadarnhaol gan y staff wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau ac roedd y plant yn gwerthfawrogi eu barn. Treuliodd nifer o'r plant y rhan fwyaf o'u hamser yn yr ardaloedd awyr agored gan fwynhau'r cyfle i chwarae'n egnïol ac yn gorfforol.

Roedd y plant yn cael budd o amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau da yn y clwb ac yn cael ymdeimlad o lwyddiant wrth gyflawni gweithgareddau.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Caiff y plant eu cymell i ddilyn diddordebau personol a rhyddid i gyfeirio eu chwarae eu hunain. Mae'r plant yn profi ystod dda o weithgareddau sy'n eu galluogi i ddatblygu hyder a sgiliau hunangymorth. Maent yn myn ati'n annibynnol i gwblhau tasgau am eu bod yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o gyflawniad bodlonrwydd sy'n dilyn. Mae'r plant yn deall bod cyfrifoldeb arnynt i ymddwyn mewn ffordd briodol pan fyddant yn y clwb, fel yn yr ysgol. Gwelsom y plant yn tacluso llestri a bwyd ar ôl bwyta, ac yn helpu i dacluso'r ystafell. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'r cyfleusterau yn annibynnol ac roeddent yn deall yr angen i ddilyn rheolau er mwyn cynnal amgylchedd diogel.

Caiff datblygiad cyffredinol y plant ei hyrwyddo drwy gysondeb ac ansawdd y profiadau sydd ar gael iddynt.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gweithdrefnau a strategaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod gan y staff y wybodaeth a'r sgiliau i gynnig gwasanaeth o ansawdd da i'r plant sydd yn eu gofal. Mae'r staff yn gymwynasgar ac yn ymateb i anghenion y plant, ac mae prosesau a systemau da ar waith i hyrwyddo llesiant y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant lefel dau, yn ogystal â hyfforddiant 'Atal' sy'n darparu gwybodaeth am amddiffyn plant rhag peryglon radicaleiddio. Nodwyd gennym fod nifer o systemau newydd ar waith er mwyn helpu i gofnodi pryderon diogelu. Gwnaethom drafod yr angen i ddiogelu fod yn fater byw o fewn cyfarfodydd tîm, gan nad oes unrhyw bryderon diogelu wedi bod, ac o ganlyniad, nodwyd fod diffyg hyder yn y weithdrefn. Mae gweithdrefn newydd ar waith ar gyfer cofnodi unrhyw anafiadau sydd gan y plant eisoes pan fyddant yn cyrraedd y gwasanaeth. Mae system ar waith, a gyflwynwyd yn ddiweddar, i fonitro a nodi unrhyw batrymau o ran yr anafiadau sy'n digwydd. Ni chofnodwyd unrhyw ddamweiniau yn ystod y tymor hwn.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel darparwr bwyd ac mae'r holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant hylendid bwyd. Bydd y ddogfen archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru ar atal a rheoli heintiau mewn safleoedd gofal plant yn weithredol yn y dyfodol agos.

Mae nifer o'r plant yn cael adwaith alergaidd i fwydydd penodol. Er bod y staff yn ymwybodol o'r alergeddau hyn, gwnaethom drafod yr angen i lunio cynlluniau gofal trylwyr sy'n nodi unrhyw gamau a gynlluniwyd pe byddai argyfwng. Mae tri aelod o'r tîm wedi cwblhau hyfforddiant alergedd bwyd ar-lein.

Mae'r gwasanaeth wedi ennill y wobr Byrbrydau Iach Safon Aur a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol. Mae dŵr ffres ar gael o fewn cyrraedd y plant bob amser. Rhoddir sylw da i hyrwyddo ymarfer corff ac mae gan y plant fynediad agored i iard yr ysgol.

Mae'r staff yn dilyn systemau a gweithdrefnau er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae angen rhoi mwy o sylw i gynnal ymatebmwy strwythuredig i alergenau.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar i'r plant. Maent yn rheoli rhyngweithio'r plant mewn modd rhagweithiol ac adeiladol, ac yn fodelau rôl cadarnhaol iddynt. Maent yn gweithredu'n gyson, gan roi sylw i anghenion plant

unigol, fel nad oes unrhyw ddryswch ynglŷn â beth yw ymddygiad derbyniol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth, a'u bod yn awyddus i gefnogi plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a dysgu beth yw ymddygiad derbyniol. Gwelsom y person â chyfrifoldeb yn siarad â'r plant am rannu adnoddau yn ystod gweithgaredd addurno bisgedi. Gwnaed hyn mewn modd teg a gyda pharch, a oedd yn annog cydweithredu. Caiff y plant ganmoliaeth gan y staff am gwblhau tasgau, fel tacluso a helpu eraill, ac maent yn gwerthfawrogi hyn. Pan ddechreuodd rhai o'r plant gynhyrfu ac aflonyddu, gwaeth y staff herio hyn yn bwyllog gan dynnu eu sylw drwy awgrymu gweithgareddau amgen.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n effeithiol gan ddefnyddio strategaethau sy'n hyrwyddo amynedd a hunan-barch.

**2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r staff yn ymateb i'r plant ac yn eu cefnogi. Clywsom y staff yn cyfathrebu â'r plant gan ddefnyddio llais tyner a thrwy siarad yn dawel, gan annog sgwrsio rhyngddynt. Anogir y plant i leisio'u barn ac ymgynghorir â nhw am y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae'r staff yn ymateb i'r plant ac yn eu cefnogi. Mae gan y staff wybodaeth dda am anghenion y plant i gyd ac ystyrir eu gofynion unigol bob amser wrth gynllunio gweithgareddau a phrynu adnoddau. Dywedodd rhai o'r plant iau wrthym eu bod yn hoffi eistedd a sgwrsio'n dawel â'u ffrindiau, ac mae cornel gysurus gyda chlustogau ar gael iddynt at y diben hwn. Mae'r plant hefyd yn defnyddio'r ardal hon ar gyfer ymlacio a darllen. Mae gan bob plentyn lyfr lloffion i gadw eu gwaith celf a chrefft ynddo, ac mae hwn yn gofnod da o'u gweithgareddau yn y gwasanaeth. Mae'r plant yn cael cyfle i gyfrannu at arddangosfeydd tymhorol sy'n hybu ymdeimlad o berthyn i'r clwb.

Mae'r staff yn sicrhau y caiff anghenion dysgu a datblygu unigol y plant eu diwallu'n effeithiol.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi ei leoli yn y neuadd ac ystafelloedd dosbarth cyfagos yn Ysgol Gynradd Mynydd Bychan. Mae'r neuadd yn eang a cheir mynediad da i ddau faes chwarae awyr agored. Pan gaiff y neuadd ei defnyddio am awr ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol, dair noswaith yr wythnos, mae'r plant yn defnyddio ystafelloedd dosbarth penodedig.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae gweithdrefnau trwyadl ar waith i sicrhau bod y plant yn ddiogel. Gellir cael mynediad i'r gwasanaeth drwy'r prif ddrws neu drwy ddrysau'r ardd. Caiff y rhain eu monitro'n ofalus gan y staff. Rhaid i bob ymwelydd lofnodi llyfr ymwelwyr i osgoi mynediad diawdurdod i'r adeilad. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer pob gweithgaredd a phob ardal y mae'r gwasanaeth yn ei defnyddio yn yr adeilad. Caiff yr holl offer tân eu gwirio gan yr ysgol a gwelsom gofnodion o ymarferion tân rheolaidd. Gwnaethom drafod yr angen i lunio cofnodion manylach o ran y rhai sy'n bresennol ac am unrhyw beryglon a wynebir. Gwelsom fod yr allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir. Gwelsom gofnodion o'r gwaith gwasanaethu a'r gwiriadau y mae'r ysgol yn eu cynnal ar yr holl gyfleustodau, a rhoddir copïau i reolwyr y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y gymhareb ofynnol o oedolion i blant bob amser yn cael ei chynnal neu'n rhagori ar y gofynion. Mae hyn yn sicrhau bod y plant dan lefelau o oruchwyliaeth dda ac y cânt eu monitro'n ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau sydd wedi'u cynllunio'n dda ar waith, sy'n cadw'r plant yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r safle a'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel a chroesawgar, ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant i gyd. Mae'r cyfleusterau toiled gerllaw'r neuadd a chânt eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r adnoddau yn drefnus ac o ansawdd da. Mae'r gofod yn rhoi'r cyfle i blant fod yn greadigol ac i ddilyn eu diddordebau. Caiff y neuadd ei rhannu'n adrannau ar gyfer gweithgareddau gwahanol a chymerir gofal i sicrhau y gall y plant iau ddewis defnyddio gofod ar wahân, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r staff yn newid y ffordd y caiff yr amgylchedd ei ddefnyddio i gyd-fynd â gofynion a dewisiadau penodol y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ansawdd yr amgylchedd yn darparu cyfleoedd a phrofiadau da i blant cael chwarae a dysgu.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl adnoddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer y plant.
Mae'r neuadd wedi'i dodrefnu â byrddau a chadeiriau o faint priodol y mae'r plant yn eu defnyddio i fwyta ac ar gyfer gweithgareddau crefft a phen bwrdd. Mae'r adnoddau a brynwyd gan y clwb yn gadarn a deniadol ac mae digon ohonynt ar gael. Mae'r staff yn eu glanhau'n rheolaidd ar ôl eu defnyddio. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod yr holl adnoddau yn briodol ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Anogir y plant i ddilyn eu diddordebau ac ni ddisgwylir iddynt gydymffurfio â stereoteipiau rhywedd o ran gweithgareddau chwarae. Trefnir gweithgareddau diwylliannol a thymhorol drwy gydol y flwyddyn i ddathlu gwyliau gan gynnwys Diwali, Hanukkah, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r plant yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn greadigol ac yn defnyddio eu dychymyg, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hoffi creu pethau gan ddefnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu. Gwnaethant ddisgrifio sesiwn modelu sothach, lle gwnaethant fwynhau creu robot.

Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod y cyfleusterau ac ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar yn darparu amgylchedd da ac ysgogol i'r plant gael ymlacio, chwarae a dysgu ynddo.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Ar y cyfan, mae arweinwyr y gwasanaeth yn ymrwymedig i hyrwyddo deilliannau cadarnhaol i'r plant. Mae systemau monitro effeithiol ar waith, sy'n sicrhau gwasanaeth o ansawdd da i'r plant ac yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan arweinwyr y gwasanaeth ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal deilliannau cadarnhaol i'r plant. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth gywir am yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac maent yn sgwrsio â'r person â chyfrifoldeb bob dydd i drafod unrhyw faterion sy'n codi. Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth hamdden difyr a diogel sydd hefyd yn hyblyg ac yn ddibynadwy i'r rhieni. Mae'r staff yn cael cyfleoedd datblygu rheolaidd. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu lefel dau, cymorth cyntaf pediatrig a diogelwch bwyd lefel dau. Mae ethos cadarnhaol ar waith sy'n hyrwyddo gwasanaeth sy'n gwella'n barhaus i sicrhau llesiant plant. Gwelsom fod y tîm yn cydweithio'n effeithiol a bod pob aelod yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli wrthi'n datblygu ystod o systemau a gweithdrefnau. Mae'r rhain yn cynnwys proses newydd i fonitro damweiniau ac anafiadau sydd eisoes gan y plant. Mae'r Cynnig Rhagweithiol sy'n ymwneud â chynnig y Gymraeg o fewn gwasanaethau ar waith am fod y mwyafrif o'r staff yn defnyddio'r Gymraeg a gall y plant ddewis yr iaith gyfathrebu.
Mae arweinyddiaeth effeithiol yn sicrhau gwasanaeth o ansawdd da i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i werthuso a gwella'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r adroddiad ansawdd y gofal i asesu'r gwasanaeth ac i gynllunio datblygiadau newydd. Mae AGC wedi cael copi o'r ddogfen hon. Cafodd y rhieni holiaduron ac fe'u hanogir i lenwi'r blwch argymhellion sydd ar gael. Er na chafodd llawer o holiaduron eu dychwelyd, mae'r gwasanaeth yn cael adborth bob dydd gan y rhieni a'r plant, ac mae hwn yn gadarnhaol. Gwnaethom siarad â phum rhiant a ddywedodd wrthym eu bod yn falch iawn ag ansawdd y gofal, yr amgylchedd a'r gweithgareddau a ddarperir. Mae'r rhieni'n hapus â'r gofal parhaus o'r ysgol i'r clwb carco, am fod nifer o'r staff yn cael eu cyflogi yn yr ysgol yn ystod y dydd. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y staff yn cael eu hannog i gyyfrannu at werthuso'r gwasanaeth ac awgrymu gwelliannau yn ystod cyfarfodydd tîm. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau mynd i'r clwb a'u bod yn edrych ymlaen at gwrdd â ffrindiau ar ddiwedd y dydd.

Mae'r arweinwyr yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithlon i wneud gwelliannau er budd y plant.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i reoli'r staff a'r adnoddau. Mae pob aelod o'r tîm yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn rhagweithiol ac yn cyfathrebu'n dda. Mae rotas ar waith ac mae'r staff yn eu defnyddio i gynllunio eu gwaith, gan fod y person â chyfrifoldeb yn newid ei rôl yn rheolaidd. Gwnaethom edrych ar ffeiliau pedwar aelod o'r staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol i bennu addasrwydd y staff. Cynhelir pob gwiriad cyn i'r staff ddechrau gweithio gyda'r plant. Cynhelir sesiynau goruchwylio unigol rhwng y staff a'r person â chyfrifoldeb bob chwech i wyth wythnos, ynghyd â gwerthusiadau blynyddol. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu harferion ac i gael adborth ar eu perfformiad. Cynhelir cyfarfodydd tîm bob wythnos i gynllunio a phenderfynu ar weithgareddau. Gwnaethom drafod gwerth cofnodi'r cyfarfodydd hyn i ddarparu tystiolaeth o'r penderfyniadau a wnaed a'r tasgau a ddyranwyd.

Mae'r arweinwyr yn rhoi cymorth da i'r staff er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol i'r plant yn gyffredinol.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n rhagweithiol i feithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu clir. Gwnaethom edrych ar ffurflenni cofrestru chwe phlentyn a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Clywsom y rhieni'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am eu plant ar ddiwedd y dydd. Mae'n amlwg bod cydberthynas waith agos rhwng y rhieni a'r staff. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau ar gael i'r rhieni bob amser. Mae'r gwasanaeth yn cynnal cysylltiadau cadarn â'r ysgol, sy'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth. Darperir adborth rheolaidd gan y pennaeth yn ôl yr angen.

Mae partneriaethau cryf rhwng y rhieni â'r ysgol yn sicrhau bod y gwasanaeth o fudd i'r plant a'u teuluoedd.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Cofnodi barn a dewisiadau'r plant;
- sicrhau bod diogelu yn fater 'byw' ac yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod tîm.
- cadw cofnodio manylach ar ôl cynnal ymarferion tân i gynnwys disgrifiad llawn o'r weithdrefn;
- datblygu strategaeth gadarn mewn ymateb i unrhyw adweithiau alergaidd y plant a
- chofnodi cyfarfodydd tîm a chadw cofnod o'r holl benderfyniadau a gwybodaeth a roddir i'r staff.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd, wedi'i drefnu oedd hwn, a gynhaliwyd gan un arolygydd ar 15 a 16 Hydref 2018. Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a gawsant drwy gydol y sesiynau gan ddefnyddio ein hadnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae hyn yn galluogi'r arolygwyr i arsylwi ar fywyd a'i gofnodi o safbwynt plentyn ac yn nodi sut mae'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir:

- Gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r safle;
- Gwnaethom adolygu'r wybodaeth sydd gan AGC eisoes;
- gwnaethom siarad â nifer o blant, pum rhiant, y person â chyfrifoldeb, dau aelod o'r staff a'r unigolyn cyfrifol a
- gwnaethom edrych ar y wybodaeth sydd gan AGC eisoes, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben a chofnodion hunanasesu. Gwelsom amrywiaeth eang o ddogfennau a oedd yn cynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau cofrestru'r plant, amserlenni cynllunio, asesiadau risg, cofnodion meddyginiaeth a rotas y staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 6. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Sarah Gardner**<br>**Katherine Watkins** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Deborah Jemmett** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **56** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 – 11 oed** |
| **Oriau agor** | **15.30 – 18.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor yn unig** |
| **Ieithoedd gweithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **12 Chwefror 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **15 a 16 Hydref 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |